**PWYLLGOR PENSIYNAU**
**10-07-08**

**Presennol:** Y Cynghorydd John G. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, J.R. Jones, W. Tudor Owen, Gwilym Euros Roberts a’r Cynghorydd Goronwy O. Parry (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Nia Jones (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau Tros Dro) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones a Linda W. Jones

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John G. Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2008/09**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Keith Greenly-Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2008/09**

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2008 fel rhai cywir.

**4. HYFFORDDI AELODAU**

**a) Hyfforddiant Ffurfiol**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau yn cyfeirio at y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi a drafodwyd eisoes gan y Pwyllgor Pensiynau pryd y cytunwyd bod hyfforddiant yn ymarfer da. Cyfeiriodd hefyd at adroddiad “Myners” sy’n nodi y dylai pob aelod o’r Pwyllgor Pensiynau gyfarfod â safonau priodol. Penderfynodd y pwyllgor eisoes ofyn i’w aelodau gael tystysgrif ac er eu galluogi i gymhwyso i dderbyn y cyfryw dystysgrif ‘roedd yn ofynnol iddynt fynychu gwahanol gyrsiau. Rhoddodd fanylion am y cyrsiau a gynhelir yn ystod y misoedd nesaf. Cadarnhaodd yr aelodau newydd a oedd yn bresennol eu bwriad i fynychu’r cyrsiau hyn a gofynnwyd i’r Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau anfon manylion amdanynt i’r aelodau newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**b) Cynadleddau**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau fanylion am y ddwy gynhadledd isod. Yn arferol anfonir dau aelod (ar drefn rota) a swyddog i’r ddwy gynhadledd. Ar gyfer eleni ac i’r dyfodol bydd angen sefydlu trefn rota o’r newydd.

**i) Cynhadledd Buddsoddi LGC, Casnewydd – 4/5 Medi 2008**

**PENDERFYNWYD**
**a) Bod y Cynghorwyr Trevor Edwards a J.R. Jones i fynychu'r gynhadledd uchod.**
**b) Ar gyfer cynadleddau i'r dyfodol, paratoi rhestr o aelodau i'w mynychu yn ôl trefn yr wyddor.**

**ii) Cynhadledd Ymddiriedolwyr LGPS, Caerdydd – 23/24 Hydref 2008**

**PENDERFYNWYD bod pedwar aelod newydd o'r pwyllgor, yn cynnwys y ddau aelod cyfetholedig, yn ôl trefn yr wyddor, i fynychu'r gynhadledd uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.20am